

Dydd Sadwrn 26 Mai 2018

Ystafell Teifi, Canolfan Gynadledda Halliwell

Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP

Gair i'r Cymry: Archwilio Testament Newydd 1567

Trosolwg

Brwydrodd William Salesbury (1520 – 1599?) yn daer ar i'r Cymry gael darllen Gair Duw yn eu mamiaith – “yr yscrythur lan yn ych iaith”. Un o'i weithiau pwysicaf oedd *Kynniver I lith a ban*, sef cyfieithiad i'r Gymraeg o'r Epistolau a'r Efengylau a benodwyd yn Llyfr Gweddi Gyffredin Saesneg 1549. Fodd bynnag, cofiwn amdano yn bennaf oll am y gwaith arloesol a wnaeth ef, ochr yn ochr â'r clerigwr, Thomas Huet a Richard Davies, Esgob Tyddewi, ym Mhalas yr Esgob yn Abergwili, i gyfieithu'r Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi i'r Gymraeg. Mae'r ddwy gyfrol yn gerrig filltir yn hanes Cymru o ran diwinyddiaeth, litwrgi a datblygiad yr iaith a phwrpas y diwrnod hwn fydd cael cyfle i ystyried y cyfraniad aruthrol hwn.

Rydym yn hynod o falch o gael croesawu naw arbenigwr yn y maes i'n hannerch, gyda'u cyflwyniadau wedi eu trefnu mewn tri chylch o dri. Bydd y cylch cyntaf yn ystyried cyd-destun y gwaith a fu'n digwydd yn sgil newidiadau ysgubol y Dadeni a'r Diwygiad; awn ati i archwilio testunau'r cyfnod yn yr ail; ac yn y trydydd ystyrir dylanwad Testament Newydd 1567 ar y cyfieithiadau a ddaeth wedyn. Ym mhob cylch bydd y cyflwyniadau'n cymryd tua 20 munud yr un, gyda 30 munud ar y diwedd er mwyn holi'r darlithwyr.

Amserlen y Diwrnod

10.00am **Y Foreol Weddi** (Y Weddi Voreuawl, yn ôl trefn 1567) Yng Nghapel y Brifysgol

10.30am **Coffi** Yn Ystafell Teifi

10.50am **Gair o groeso** gan Esgob presennol Tyddewi, y Wir Barch. Joanna Penberthy

11.00am **Y cylch cyntaf o ddarlithoedd**
Y Cyd-destun: y cefndir i Destament Newydd 1567

- | | | |
|----|------------------------------------|---|
| 1A | Yr Athro Emeritws Ceri Davies | 'William Salesbury: Dyneiddiwr Cristnogol' |
| 1B | Dr. Robert Pope | ' <i>Sola Scriptura</i> : Prif Gynsail y Diwygiad Mawr?' |
| 1C | Yr Athro Emeritws D. Densil Morgan | 'Diosg yr allorau: William Salesbury a'i <i>Baterie of the Pope's Botereulx</i> ' |

12.30pm **Cinio**
Bydd caffi yn gwerthu brechdanau ar agor. Fel dewis arall, gallwch ddod â rhywbeth gyda chi.

1.30pm **Yr ail gylch o ddarlithoedd**
Y Testun: archwilio Testament Newydd 1567

- | | | |
|----|---------------------|--|
| 2A | Mr Geraint Lloyd | '“Air yn ei glyydd” – egwyddorion cyfieithu Testament Newydd 1567' |
| 2B | Dr. Catrin Williams | 'Egwyddorion cyfieithu Salesbury ar waith mewn detholiad o destunau Testament Newydd 1567' |
| 2C | Dr. Christine Jones | '“Yn ieith ei wlat”': Golwg ar gyfieithiad Thomas Huet o Lyfr y Datguddiad' |

3.00pm **Te**

3.30pm **Y trydydd cylch o ddarlithoedd**
Yr 'Ôl-destun': dylanwad Testament Newydd 1567

3A	Y Parch. Ddr. Adrian Morgan	Teitl i'w gadarnhau
3B	Yr Athro E. Wyn James	'Y Trobwynt Mawr: Deddf, Llyfr Gweddi a'r Salmu'
3C	Mr. Arfon Jones	'Darllen, darganfod a digido: o Salesbury i beibl.net'

5.00pm **Yr Hwyrrol Weddi** (Y Weddi Byrnhawawl, yn ôl trefn 1567)

Estynnir croeso cynnes i unrhyw sydd â diddordeb i fynychu. Fodd bynnag, bydd angen cadw lle er mwyn hwyluso'r trefniadau ymarferol. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Chynorthwy-ydd Personol Esgob Tyddewi, Dawn Evans, erbyn 18 Mai.

Llys Esgob, Abergwili, Caerfyrddin, SA31 2JG
Ffôn : 01267 236597
dawnevans@churchinwales.org.uk